

Ras Adar yr Hanner Canmlwyddiant!

Dydd Sadwrn 18/5/13



Fel rhan o gyfres o ddigwyddiadau sydd wedi'u trefnu i ddathlu **50** mlynedd ers sefydlu **Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru**, byddwn yn dathlu'r cyfoeth o adar sydd i'w gweld yn ein gwarchodfeydd, ac ohonynt, gyda ras adar noddedig arbennig sy'n para 24 awr. Gwahoddir unigolion a thimau i gymryd rhan a gallwch ymweld ag unrhyw un o warchodfeydd YNGC mewn un o 3 rhanbarth daearyddol yn ystod y dydd – a chael hwyl, helpu i godi arian ar gyfer yr Ymddiriedolaeth, ennill gwobr efallai, a gweld adar anghygoel hefyd, gobeithio!

I gymryd rhan neu i gael rhagor o wybodaeth, ymwelwch a:

http://www.northwaleswildlifetrust.org.uk/welsh/page_home.php

neu gysylltwch a Ben Stammers ar 01248 351541

Y Rheolau ar gyfer y Ras:



Hyd y ras: unrhyw adeg rhwng 00:00 awr ar 18/5/13 a 00:00 awr ar 19/5/13

Bydd y timau / unigolion yn cofnodi'r adar maent yn eu gweld neu'n eu clywed yn unrhyw rai o warchodfeydd YNGC, neu bob un ohonynt, yn y rhanbarthau canlynol*:

Ynys Môn: Cemlyn, Cors Goch, Mariandyrys, Coed Porthamel, Caeau Pen y Clip, Porth Diana.

Y Gorllewin: Gwaith Powdwr, Traeth Glaslyn, Morfa Bychan, Greenacres, Coed Crafnant, Abercorris, Caeau

Tanybwllch, Eithinog, Spinnies Aberogwen, Cors Bodgynydd.

Y Dwyrain: Cors Maen Llwyd, Rhiwledyn, Y Gogarth, Bryn Pydew, Cors y Sarnau, Blaen y Weirglodd, Coed y Felin, Chwarel Marffordd, Coed Pwll Mawr, Y Ddôl Tair Cornel, Y Ddôl Uchaf, Chwarel Pisga, Aberduna, Coed Trelyniau, Y Graig, Maes Hiraddug, Coed Cilygroeslwyd.

**Er bod y rhaniad yma'n anghyfartal o ran nifer y gwarchodfeydd ym mhob rhanbarth, rydym yn gobeithio y bydd yn gymharol deg o ran y rhywogaethau a fydd ar gael o bosib. Yn ôl natur y safleoedd unigol, mae rhai gwarchodfeydd (yn enwedig y rhai arfordirol, fel Cemlyn er enghraifft) yn cynnwys llawer mwy o rywogaethau posib, a hefyd gallant fod yn fwy tebygol o ddenu adar mudo sy'n mynd heibio.*

- Gall pobl ddewis cymryd rhan yn y ras gyffredinol neu ddim ond ymweld ag un neu ddwy o warchodfeydd yn y rhanbarth, ac anelu at ychwanegu at gyfanswm rhywogaethau'r rhanbarth hwnnw.
- Gallwch gystadlu fel unigolyn neu mewn tîm. Gellir cael hyd at 6 o bobl mewn tîm, ac mae'n rhaid i bawb aros gyda'i gilydd. Os yw'n dîm o 2 neu 3, mae'n rhaid i'r ddau / pawb weld neu glywed y rhywogaeth (nid yr un aderyn unigol o angenrheidrwydd) er mwyn ei gyfrif. Os oes mwy na 3 mewn tîm, mae'n rhaid i'r rhywogaeth gael ei weld / glywed gan o leiaf 3 aelod o'r tîm yr un fath.
- Mae'n rhaid cofnodi'r adar yn y warchodfa neu ohoni. Hynny yw, mae'n rhaid i'r cofnodwyr eu hunain fod naill ai yn y warchodfa neu ar ei ffin wrth weld/clywed rhywogaeth. Gall yr adar fod unrhyw bellter i ffwrdd, dim ond eu bod yn cael eu hadnabod.
- Pan mae aderyn yn cael ei adnabod ar lefel teulu ond nid lefel rhywogaeth, mewn rhai achosion fe ellir rhoi tic – er enghraifft, gellir ticio carfil yn y pellter a all fod yn Wylog neu'n Llurs fel 'rhywogaeth o garfil', ond ni ellir ticio Gwylog na Llurs wedyn hefyd.
- Ni chaniateir hudo rhywogaethau gan ddefnyddio sain wedi'i recordio.
- Y tîm neu'r unigolyn gyda'r cyfanswm mwyaf o rywogaethau ar ddiwedd y ras sy'n ennill. Bydd gwobr ar wahân – sef gwobr *Ras dros Natur* - yn cael ei dyfarnu i'r cyfranogwr o dan 16 oed sydd â'r cyfanswm mwyaf o rywogaethau.
- Yn ychwanegol at gofnodi adar, cynhelir Ras Glöynnod Byw ar wahân ar gyfer y rhai sydd â diddordeb. Gellir cofnodi pob rhywogaeth o löynnod byw (oedolion neu lindys), ond dim gwyfynod. Gellir noddi'r rhywogaethau o löynnod byw yn yr un ffordd â'r adar, ond ni fyddant yn cyfuno gyda chofnodion yr adar o ran y cyfansymiau ar gyfer y gystadleuaeth.
- Bydd pob tîm sydd wedi cofrestru'n cael taflen gofnodi / ffurflen noddi. Mae **asesiad risg** ar gyfer y digwyddiad ar gael hefyd, ac mae'n cynnwys dolenni at Asesiadau Risg y safleoedd unigol.
- Croesewir pob rhodd i YNGC a byddant yn mynd tuag at warchod cynefinoedd rhagorol YNGC ar gyfer adar a bywyd gwyllt amrywiol. Bydd y timau'n cael ffurflenni noddi a gallant drefnu i gael eu noddi am swm penodol am bob rhywogaeth a gofnodir, neu i wneud rhodd uniongyrchol fel tîm.
- Bydd cyfarfod ar ôl y ras am 1pm ar y dydd Sul (19^{eg} Mai) – rhagor o fanylion yn nes ymlaen. Croeso i bawb - hyd yn oed os nad oeddech yn y ras! Cyfle i gasglu canlyniadau, rhannu uchafbwyntiau, cyhoeddi enwau'r enillwyr, cymharu'r cyfansymiau ar y cyd ar gyfer y 3 rhanbarth a chanfod y cyfanswm mawreddog ar gyfer yr holl warchodfeydd. Bydd anrhydedd ychwanegol yn cael ei dyfarnu i'r 'cofnod mwyaf anarferol' – nid yr aderyn prinnaf yn gyffredinol o angenrheidrwydd, ond y rhywogaeth mwyaf annisgwyl ar gyfer y safle penodol hwnnw.

Gwobrau:

Bydd y tîm / unigolyn buddugol yn derbyn teclyn bwydo adar a bwyd a gyflenwir gan Vine House. Bydd yr unigolion yn y tîm buddugol nad ydynt yn aelodau o'r Ymddiriedolaeth Natur yn derbyn tanysgrifiad blwyddyn am ddim i YNGC. Hefyd bydd yr aelodau presennol yn derbyn pecyn aelodaeth y gallant ei roi'n rhodd i ffrindiau neu deulu. Bydd enillydd y *Ras dros Natur* yn cael 'goody bag' arbennig.

Gwybodaeth bwysig:

- Rydym yn argymhell bod y timau i gyd yn dod yn gyfarwydd â'r safleoedd maent yn bwriadu ymweld â hwy cyn y diwrnod ei hun. Mae hwn yn gam rhesymegol / mater diogelwch – mae'n werth gwybod am bethau fel parcio, mynediad, llwybrau troed, peryglon posib ac ati ymlaen llaw (yn enwedig os byddwch yn ymweld â'r safleoedd wrth i'r wawr dorri neu yn y gwyll). Hefyd bydd yn helpu'r timau i wybod am y math o gynefinoedd ar y safle a pha rywogaethau sy'n werth chwilio amdanynt.
- Mae manylion am holl warchodfeydd YNGC, gan gynnwys cyfarwyddiadau, ar gael yn y wefan <http://www.northwaleswildlifetrust.org.uk/welsh/reserves.php> neu drwy gysylltu ag YNGC ar 01248 351541. Mae taflenni'r gwarchodfeydd unigol ar gael ar gais.
- Mae rhyw 16 awr o olau dydd yr adeg yma o'r flwyddyn, ond does dim *rhaid* i bobl fod allan drwy gydol y cyfnod yma – gall fod yn ddiwrnod hir (yn enwedig os yw pobl yn gwrandao am y troellwr mawr neu dylluanod ac ati!). Gwnewch yn siŵr nad oes neb yn gyrru wedi blino, a threfnwch sawl egwyl yn ystod y dydd. Dewch â digon o fwyd a dŵr gyda chi. Mae'n bwysig cael hwyll!
- Yn yr un modd, does dim *rhaid* i dimau ymweld â phob un o safleoedd YNGC yn eu rhanbarth – mae'n werth meddwl ymlaen llaw am lwybr ar gyfer y diwrnod, i gynnwys cymaint o wahanol gynefinoedd / rhywogaethau â sy'n bosib, ac i sicrhau cyn lleied o amser yn gyrru car â sy'n bosib.
- Mae'r digwyddiad hwn ar agor i bobl o bob oed ac o bob lefel profiad yn gwylio adar, ac mae YNGC yn awyddus i groesawu pobl nad ydynt yn arbenigwyr. Wedi dweud hynny, byddai'n syniad da cael o leiaf un adarwr cymharol hyderus ym mhob tîm – i helpu i gadarnhau pa adar sy'n cael eu gweld a'u clywed ac ati. Byddwn yn helpu i roi timau addas at ei gilydd os bydd angen.
- Mae croeso i bawb gofnodi'r diwrnod mewn lluniau – byddai'n grêt gallu rhannu lluniau o'r timau, rhai o'r safleoedd, a hyd yn oed rhai o'r adar os bydd hynny'n bosib. Byddwn yn casglu oriel o luniau fel cofnod gweledol o'r digwyddiad.